

5. A yw'r cen fel llwyn, cudyn neu'n ymledol?

Barf y Wrach *Usnea florida*

Un o'r Cennau Rhawn *Bryoria fuscescens*




Ffurf twf a maint: cudynnau fel llwyn hyd at tua 10cm ar frigau a changhennau
Lliw: llwydwyrdd golau gyda gwaelod wedi duo i'r prif goesyn
Soredia/isidia: dim
Apothesia: gall fod yn doreithiog, nodedig iawn; disg llwydwyrdd (i 1cm) gydag ymwithiadau hir ('wisgers') o amgylch yr ymyl
Ochr isaf: amherthnasol
Rhywogaethau tebyg: rhywogaethau *Usnea* eraill, ond mae *U. florida* yn tueddu i fod yn fwy ffrwythlon a thoreithiog heb unrhyw isidia na soredia fel sydd gan y rhan fwyaf o'r rhywogaethau eraill
Nodiadau: cyffredin

Ffurf twf a maint: canghennau cul, silindrog, tebyg i flew mewn cudynnau estynedig neu hir neu ymledol, yn nodweddiadol hyd at tua 15cm ond weithiau'n llawer hirach
Lliw: brown lledwyrdd, brown neu frown tywyll
Soredia/isidia: soredia lledwyn yn echdorri mewn clytiau hirgrwn ar wahân ar y coesynnau
Apothesia: prin iawn
Ochr isaf: amherthnasol
Rhywogaethau tebyg: tebyg iawn i rywogaethau *Bryoria* eraill ac mae'n hawdd drysu rhyngddynt, yn enwedig *B. subcana* sy'n oleuach fel rheol. Mae angen profion cemegol yn aml er mwyn eu hadnabod yn bendant
Nodiadau: anghyffredin

6. A yw'r cen yn gramen ar y swbstrad (cramennog)?

Un o'r Cennau Cramennog *Ochrolechia androgyna*

Un o'r Cennau Cramennog *Ochrolechia tartarea*



Ffurf twf a maint: yn ffurfio clytiau cramennog, lympiog, trwchus hyd at tua 20cm neu fwy
Lliw: lledwyn i lwyd golau, lledwyrdd yn aml
Soredia/isidia: dim
Apothesia: aml; disg pinc golau i oren neu frown gydag ymyl trwchus (ond dim soredia)
Ochr isaf: amherthnasol
Rhywogaethau tebyg: *Ochrolechia androgyna* (edrychwch i'r chwth) pan yn ffrwythlon ond does gan y cen hwnnw ddim soredia
Nodiadau: anghyffredin



Ffurf twf a maint: yn ffurfio clytiau cramennog, lympiog, trwchus hyd at tua 20cm neu fwy
Lliw: lledwyn i lwyd golau
Soredia/isidia: dim
Apothesia: aml; disg pinc golau i oren neu frown gydag ymyl trwchus (ond dim soredia)
Ochr isaf: amherthnasol
Rhywogaethau tebyg: *Ochrolechia androgyna* (edrychwch i'r chwth) pan yn ffrwythlon ond does gan y cen hwnnw ddim soredia
Nodiadau: anghyffredin

Cen Strap Blewog *Ramalina farinacea*

Mwsogl y Dderwen *Evernia prunastri*

Cen Dafadennog Chwerw *Lepra amara*

Cen Calon Waedlyd *Mycoblastus sanguinarius*



Ffurf twf a maint: cudynnau cywasgedig o ganghennau cul, fflat hyd at tua 7cm, ar frigau a changhennau yn bennaf
Lliw: llwydwyrdd golau i felynwyrdd
Soredia/isidia: soredia mewn clytiau hirgrwn ar wahân ar hyd y canghennau
Apothesia: prin
Ochr isaf: yr un lliw â'r ochr uchaf
Rhywogaethau tebyg: *Evernia prunastri* (edrychwch i'r dde, ochr isaf gwyn), rhywogaethau *Usnea* twmpathog (coesynnau silindrog) a rhywogaethau llai cyffredin *Ramalina* eraill (dyma'r mwyaf cyffredin ar risgl asid)
Nodiadau: rhywogaeth gyffredin mewn ystod o gynefinoedd

Ffurf twf a maint: cudynnau cywasgedig o ganghennau cribog, fflat gyda blaenau wedi'u rhannu hyd at tua 12cm o hyd, ar frigau a changhennau yn bennaf
Lliw: llwydwyrdd golau i felynwyrdd
Soredia/isidia: soredia ar gribau ac ymylon, mewn clytiau crwn ar wahân ar y cychwyn ond wedyn yn ymledu ac yn cyfuno
Apothesia: prin iawn
Ochr isaf: amherthnasol
Rhywogaethau tebyg: rhywogaethau *Lepra* eraill ond nid yw'r lleill yn blasu'n chwerw
Nodiadau: cyffredin

Ffurf twf a maint: yn ffurfio clytiau cramennog, lympiog, trwchus hyd at tua 20cm neu fwy
Lliw: lledwyn i lwyd golau
Soredia/isidia: dim
Apothesia: aml; disg pinc golau i oren neu frown gydag ymyl trwchus (ond dim soredia)
Ochr isaf: amherthnasol
Rhywogaethau tebyg: *Ochrolechia androgyna* (edrychwch i'r chwth) pan yn ffrwythlon ond does gan y cen hwnnw ddim soredia
Nodiadau: anghyffredin

Ffurf twf a maint: yn ffurfio clytiau cramennog, lympiog, trwchus hyd at tua 20cm neu fwy
Lliw: lledwyn i lwyd golau
Soredia/isidia: dim
Apothesia: aml; disg pinc golau i oren neu frown gydag ymyl trwchus (ond dim soredia)
Ochr isaf: amherthnasol
Rhywogaethau tebyg: *Ochrolechia androgyna* (edrychwch i'r chwth) pan yn ffrwythlon ond does gan y cen hwnnw ddim soredia
Nodiadau: anghyffredin

Plantlife ydym ni

Plantlife yw'r elusen fyd-eang sy'n gweithio i wella, gwarchod, adfer a dathlu'r planhigion gwylt a'r ffynghau sy'n hanfodol i holl fywyd y ddaear.

Gyda dau o bob pum rhywogaeth o blanhigion mewn perygl o ddiplannu, colli bioamrywiaeth yw'r cyflwmaf y bu erioed ac ni fu gwaith Plantlife erioed mor hanfodol. Helpwch i sicrhau byd llawn planhigion gwylt a ffynghau trwy ddod yn aelod o Plantlife heddiw.

Plantlife
 Brewery House
 36 Milford Street, Salisbury
 Wiltshire, SP1 2AP

enquiries@plantlife.org.uk
 plantlife.org.uk

Lawrlwythwch gopi digidol o'r canllaw hwn a darganfyddwch am reoli coedwigoedd glaw:

Sganiwch y cod QR neu ymwelwch
joinplantlife.org/temperate-rainforest-c-parm



Gwybodaeth Bellach

Lichens: An Illustrated Guide to the British and Irish Species.
 Frank Dobson. 7fed Argraffiad (2018).
 Richmond Publishing Co. Ltd. Dyma'r canllaw adnabod gorau i'r rhan fwyaf o gennau cyffredin mewn amrywiaeth o gynefinoedd.

Lichens.
 Oliver Gilbert (2000). Cyfres New Naturalist Collins. Harper Collins, Llundain. Mae hwn yn gofnod hynod ddarllenadwy o eoleg a chynefinoedd cennau ym Mhrydain, gan gynnwys pennod dda ar gennau coetir.

britishlichensociety.org.uk
 Mae gan Gymdeithas Cennau Prydain (BLS) wybodaeth am gennau, cyhoeddiadau, cyrsiau a dolenni gwe.

Noddwr EF Brenin Charles III

Plantlife International - Mae'r Elusen Cadwraeth Planhigion Gwylt yn gwmni elusennol cyfyngedig trwy warant. Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr, Rhif Elusen: 1059559. Wedi'i gofrestru yn yr Alban, Rhif Elusen: SC038951. Rhif Cwmni Cofrestredig: 3166339. Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr.

© Plantlife Ionawr 2025

Ysgrifennwyd y canllaw hwn yn wreiddiol gan Andy Acton ac Anna Griffith. Delweddau © Andy Acton/Anna Griffith/Dave Lamcraft

Geirfa

Apothesia: strwythurau atgennedlu rhywiol ar wyneb y thalws sy'n gwasgaru'r sborau ffynghaidd, fel corff ffrwytho madarch. Yn siâp disg yn aml ond maent ar sawl ffurf

Ffurf: ffurf twf y cen h.y. fel dail (deiliog), prysgoediog (llwynaid), cramennog (cennog)

Isidia: strwythurau atgennedlu llystyfol sy'n edrych fel pegiau bach caled ar y thalws, gallant fod yn syml neu'n debyg i gwrel

Llabed: 'deilen' cen deiliog

Medwla: y tu mewn i gen, i'w weld pan fydd yr haen allanol (y cortecs) yn cael ei chrabu i ffwrdd

Pruina: siwgr eisn fel llwch dros arwyneb thalws neu apothesiwm

Pseudocypellae: bylchau bach yn y cortecs lle mae'r tu mewn (gwyn fel arfer) yn dangos drwodd. Ymddangos fel brychau bach ar yr wyneb

Rhisinau: strwythurau tebyg i wreiddiau ar yr ochr isaf sy'n gyfrwng yn syml i atodi'r cen wrth y swbstrad

Soralia: strwythurau atgennedlu llystyfol sy'n cynnwys soredia, maent yn ymddangos fel crafiadau neu wlserau ar y thalws. Yn aml siâp hirgrwn neu gylchol

Swbstrad: yr arwyneb y mae'r cen yn tyfu arno e.e. rhisgl coeden, craig

Thalws: corff y cen

Er bod enwau Cymraeg wedi cael eu defnyddio yn y canllaw hwn, ychydig sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol. Dylid defnyddio enwau gwyddonol bob amser wrth gofnodi cennau er mwyn osgoi amwysedd.

Cyflwynwch eich cofnodion i Gymdeithas Cennau Prydain.




Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
 In Partnership with Welsh Government

Cilia ar *Parmotrema perlatum*



Ffrwyth ar *Ochrolechia tartarea*



Isidia ar *Parmelia saxatilis*



Soredia ar *Parmelia sulcata*



Pseudocypellae ar *Cetrelia olivetorum*



Rhisinau ar *Hypotrachyna laevigata*



Plantlife
 Cymru

Cennau Coedwigoedd Glaw Cymru

Canllaw 2 - Cennau rhisgl asid ar Goed Bedw, Gwerni a Derw

Mae'r canllaw maes yma ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn adnabod rhai o'r cennau amlycaf sy'n gysylltiedig â choedwigoedd glaw tymherus yng Nghymru, gyda'r nod o ddarparu'r adnoddau sydd eu hangen i adnabod rhai o'r rhywogaethau mwy cyffredin, yn ogystal â'r rhai hynny sy'n dynodi cynefin coedwig law dymherus da.

Mae'n edrych ar grŵp o gennau o'r enw *Parmelion* sy'n tyfu ar goed gyda rhisgl asidig e.e. Bedw, Gwerni, Derw ac ar greigiau asidig, yn enwedig mewn lleoliadau agored gyda lefel uchel o lawiad.

Beth yw coedwig law dymherus?

Mae coedwig law dymherus yn brin yn fyd-eang. Mae'n bodoli lle mae'r hinsawdd yn fwy ac yn wlyb; mae'r amodau hinsoddol addas i'w cael dros lai na 7% o arwyneb y ddaear.

Nodweddir coedwig law dymherus yn arbennig gan dyfiant toreithiog o gennau, bryoffytau¹ a rhedyn, ac mae llawer ohonynt yn hynod arbennig o dim ond, neu'n bennaf, i'w cael mewn coedwig law dymherus.

Yn Mhrydain, fe'i ceir yn y gorllewin lle mae'r hinsawdd yn fwy a gwlyb oherwydd dylanwad Llif y Gwlff. Mae'n digwydd ledled y dirwedd fel coetir, porfa goed a choed gwasgareid; mae'r ffordd mae pobl wedi ymwneud â'r dirwedd dros filoedd o flynyddoedd wedi siapia'r hyn sydd gennym ni heddiw, ac mae'r hyn sy'n weddill yn bwysig yn rhyngwladol o ran y cynefin ei hun a'r rhywogaethau mae'n eu cynnal.

Ledled Prydain mae coedwigoedd glaw yn amrywio yn ôl hinsawdd; mae coedwig law dymherus yr iseldir i'w cael yng Ngorllewin yr Alban a rhannau o Cumbria a Gogledd Cymru, gan adlewyrchu'r amodau hinsoddol gwlypach, tra bo coedwig law ucheldir yn fwy cyffredin. Lle mae'r amodau'n sychach ac yn fyw heulog, mae coetir cefnforol yn dod yn fwy cyffredin. Mae ein defnydd ni o'r term 'coedwig law' fan hyn yn cwmpasu gwir goedwig law a choetir cefnforol gan eu bod yn aml yn digwydd ochr yn ochr â'i gilydd ar draws tirwedd y goedwig law.

Beth yw cen?

Mae cen yn organeb cyfansawdd sydd wedi'i ffurfio yn bennaf gan ffwng ac alga neu syanobacteria ond sy'n cynnwys ffyngau a bacteria eraill hefyd.

Y ffwng sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o'r cen (y thalws), ond fel gyda phob ffwng ni all gynhyrchu bwyd iddo'i hun. Felly, mae'r ffwng yn ffurfio partneriaeth gyda'r alga neu'r syanobacteriwm (y ffotobiont), weithiau'r ddau, sy'n cynhyrchu bwyd drwy ffotosynthesis. Mae syanobacteria hefyd yn cynhyrchu bwyd drwy ddal nitrogen.

Y rhywogaeth ffyngaidd sy'n rhoi ei henw i'r cen; mae pob rhywogaeth o gen yn rhywogaeth ffyngaidd wahanol ond maent yn rhannu nifer cyfharol fach o rywogaethau algaidd neu syanobacterial.

Gallant atgenhedlu'n rhywiol, gan gynhyrchu sborau ffyngaidd sy'n cael eu gwasgaru gan y corff ffurthytho, ac yn llystyfogl gyda phecyntau bach o'r alga a deunydd ffyngaidd yn cael eu gwasgaru mewn strwythurau bach e.e. isidia, soredia.

Pam mae cennau sy'n gysylltiedig â choedwigoedd glaw Cymru mor bwysig?

Mae coedwigoedd glaw tymherus Prydain yn gartref i boblogaethau rhyngwladol bwysig o gennau coedwigoedd glaw, gyda rhai ohonynt yn endemig h.y. ddim i'w canfod yn unman arall yn y byd. Gall y safleoedd cyfoethocaf gynnal hyd at 300 neu fwy o rywogaethau o gen.

Maent yn ddangosyddion pwysig o ansawdd cynefin a gallant ddweud wrthym am hanes ecolegol safle e.e. clirio coed yn y gorffennol. Maent yn fioddangosyddion sy'n cael eu defnyddio i asesu ansawdd aer ac maent yn cyflawni rôl bwysig yn y cylchoedd maethynnau a dŵr.

Cymunedau o gennau

Nid ar hap yn unig y mae gwahanol rywogaethau o gennau i'w cael ledled y dirwedd. Er bod rhai'n gallu ymdopi ag ystod eang o amodau, mae llawer ohonynt yn hynod arbennigol i gilfachau penodol. Mae pa rywogaethau sy'n tyfu ymhle yn dibynnu ar lawer o ffactorau ond mae cemeg y swbstrad, lefelau'r golau, lefelau'r lleithder a hanes y dirwedd yn arbennig o bwysig. Mae gwahanol rywogaethau sydd â gofynion tebyg yn ffurfio cymunedau ecolegol unigryw, a'r prif rai yng nghoedwigoedd glaw tymherus Prydain yw:

Y Lobarion: a geir ar goed gyda rhisgl ychydig yn asidig i niwtral e.e. ynn, cyll, criafol, helyg a hen dderw (Canllaw 1). I'w canfod mewn coedwig law iseldirol a choetir cefnforol.

Y Parmelion: a geir ar goed gyda rhisgl asidig e.e. gwerni, bedw a derw (edrychwch ar Ganllaw 2). I'w canfod yn arbennig mewn coedwig law ucheldir.

Y Graphidion: yn digwydd yn nodweddiadol fel mosäig cymhleth o gennau cramennog ar risgl llyfn, yn enwedig ar goed cyll (y Canllaw yma). I'w canfod yn arbennig mewn coedwig law iseldirol a choetir cefnforol.

Sut i ddefnyddio'r canllaw yma

Estynnwch lens llaw x10 ac ewch allan i'r coed! Er mwyn gweld y cennau yn y canllaw yma mae angen archwilio cynefin addas; mae gan y safleoedd coedwigoedd glaw tymherus cyfoethocaf dopograffeg amrywiol, gan gynnwys nentydd a chreigiau, a strwythur coetir amrywiol gyda llennyrch ac amrywiaeth o rywogaethau o goed gan gynnwys hen goed a chyll. Mae'r rhywogaethau yn y canllaw yma i'w gweld ar risgl ac ar fatiau o fwsoglau a llysiâu'r afu sy'n tyfu dros risgl ac ar glogfeini mwsoglyd a ac chreigiau.

Mae'r rhywogaethau wedi'u rhannu yn ôl ffurf eu twf neu eu cymeriad a ddynodir gan y penawdau ar frig y disgrifidau:

- 3. Deiliog: llabedau deiliog gyda nodweddion gwahanol a all gynnwys e.g. rhisinau ar yr ochr isaf neu labedau wedi chwyddo neu wag
- 5. Llwynaid: prysgoediog, twmpathog, gwasgarog neu debyg i gwrel
- 6. Cramennog: gwedd cennog neu ronynnog

Mae disgrifidau'r rhywogaethau'n manylu ar y canlynol:

- y rhywogaethau hynny sy'n ddangosyddion cynefin coedwig law dymherus o ansawdd da (wedi'i nodi ag a ★), cadwch lygad am y rhain wrth gynnal Asesiad Cyfym o Goedwigoedd Glaw
- pa mor gyffredin yw pob rhywogaeth mewn cynefinoedd coedwig law dymherus
- nodweddion adnabod allweddol y thalws a'r apothesia
- nodiadau e.e. y prif rywogaethau sy'n creu dryswch

¹ Term casgliadol ar gyfer mwsoglau, cwpanllysiâu a chorlllysiâu

1. Oes gan y cen deiliog risinau du niferus ar yr ochr isaf?

Cen Dolennog Llyfn *Hypotrachyna laevigata*



Cen Dolennog Cynffonnog *Hypotrachyna taylorensis*



Ffurf twf a maint: mawr (clytiau hyd at tua 20cm), llabedau cul llyfn gyda blaenau sgwâr
Lliw: llwyd golau neu lwydlas golau
Soredia/isidia: soredia mewn soralia cronellog ym mlaenau'r llabed
Apothesia: achlysurol; hyd at 10 mm, disg brown tywyll
Ochr isaf: du, brown tywyll ger yr ymylon, gyda rhisinau du fforchiog niferus
Rhywogaethau tebyg: *H. taylorensis* sydd heb soralia (edrychwch i'r dde), i *H. revoluta* sydd â soralia llai pendant a gyda rhisinau syml yn hytrach na changhennog ac *H. endochlora* sydd â medwla lledfelyn ac sy'n brin
Nodiadau: cyffredin

2. Oes gan y llabedau ymylon tonnog a/neu ochr isaf noeth (heb risinau) ger yr ymyl?

Dan Anobeithiol *Parmotrema crinitum*



Ffurf twf a maint: clytiau hyd at tua 20cm neu fwy, llabedau tonnog wedi'u hatodi yn llac gydag ymddangosiad wedi rhywyo i'r ymyl ac isidia blewog gan roi ymddangosiad blêr yn gyffredinol
Lliw: llwyd golau, lledlas neu ledwyrdd yn aml
Soredia/isidia: isidia syml neu debyg i gwrel, gyda blew (cilia) du ymwithiol fel blewiaoch barf
Apothesia: prin iawn
Ochr isaf: du gyda rhisinau syml, ond gyda pharth brown heb risinau o amgylch yr ymylon
Rhywogaethau tebyg: rhywogaethau eraill yn y canllaw hwn ond mae'r isidia yn ddiagnostig. Yn debyg iawn i *H. horrescens* ond mae hwnnw'n lawer llai a chyda golwg galed ddisglair
Nodiadau: anghyffredin

Cen Storm y Môr *Parmotrema perlatum*



Ffurf twf a maint: clytiau hyd at tua 20cm neu fwy, llabedau crwn wedi'u hatodi yn llac gydag ymyl tonnog sydd â cilia gwasgarog
Lliw: llwyd golau, lledlas neu ledwyrdd yn aml
Soredia/isidia: soredia mân mewn soralia ymylol sy'n llinellol ac yn siâp gwefus
Apothesia: prin
Ochr isaf: du gyda rhisinau syml, ond gyda pharth brown heb risinau o amgylch yr ymylon
Rhywogaethau tebyg: tebyg yn arwynebol i rywogaethau deiliog llwyd eraill yn y canllaw yma ac i rywogaethau *Parmotrema* eraill
Nodiadau: cyffredin mewn ystod o gynefinoedd yng Ngorllewin Prydain

3. A yw'r llabedau'n chwyddedig neu'n wag, gydag ochr isaf lefn heb risinau?

Cadachau Grug *Hypogymnia physodes*



Ffurf twf a maint: clytiau hyd at tua 10cm o labedau chwyddedig gwag, mae blaenau'r llabedau wedi codi yn aml i ddangos ochr isaf frown neu wedi hollti ar agor i ddatgelu soredia ar yr ochr isaf
Lliw: llwyd golau, lledlas neu ledwyrdd yn aml, arlliw o frown weithiau
Soredia/isidia: soredia ar ochrau isaf blaenau'r llabedau wedi hollti
Apothesia: prin; disg cochfrown gyda gwefus ymyl
Ochr isaf: du ond brown tuag at yr ymylon, heb risinau
Rhywogaethau tebyg: *Hypogymnia tubulosa* gyda soredia ar flaenau solet (heb hollti) a *Menegazzia terebrata* (edrychwch i'r dde)
Nodiadau: rhywogaeth gyffredin ar goed

Ffliwt y Coed *Menegazzia terebrata*



Ffurf twf a maint: clytiau hyd at tua 10cm o labedau chwyddedig gwag, gyda thyllau nodedig. Yn aml yn ffurfio rhosedau taclus wedi'u gwasgu'n agos i'r swbstrad
Lliw: llwyd golau, lledlas neu ledwyrdd yn aml, arlliw o frown weithiau
Soredia/isidia: soredia mewn lympiâu crwn ar wahân ar yr arwyneb a blaenau'r llabedau
Apothesia: prin iawn
Ochr isaf: du, heb risinau
Rhywogaethau tebyg: *Hypogymnia physodes* (edrychwch chwith) sydd â soredia o dan flaenau'r llabedau wedi hollti a heb dyllau nodedig *M. terebrata*, *M. subsimilis* yn debyg iawn ac mae'n anodd dweud y gwahaniaeth rhyngddynt, ond mae'n brin iawn yng Nghymru a Lloegr
Nodiadau: prin

Cen Tarian Bigau Blewog *Hypotrachyna horrescens*



Ffurf twf a maint: clytiau hyd at tua 5cm, llabedau gorllawn yn gorgyffwrdd, wedi'u hatodi'n agos i'r swbstrad, ymddangosiad blêr
Lliw: llwyd golau, lledlas neu ledwyrdd yn aml, sgleiniog
Soredia/isidia: toreithiog, blaen brown, isidia tebyg i begiau gyda cilia du ymwithiol
Apothesia: prin, cochfrown, isidia gyda cilia ar yr ymylon
Ochr isaf: du neu frown tywyll gyda rhisinau du syml niferus, fforchiog weithiau
Rhywogaethau tebyg: fel fersiwn bach o *Parmotrema crinitum* ond wedi'i wasgu'n dynnach i'r swbstrad a gyda thalws sgleiniog
Nodiadau: prin

Ffurf twf a maint: clytiau hyd at tua 20cm neu fwy, yn ffurfio rhosedau, wedi'u hatodi yn llac yn aml, llabedau gyda chribau a blaenau sgwâr
Lliw: llwyd golau, lledlas neu ledwyrdd yn aml, gyda brychau goleuach a chribau
Soredia/isidia: *P. saxatilis* isidia syml, tebyg i begiau, neu debyg i gwrel, blaen brown yn aml, a *P. sulcata* - soredia gronynnog ar arwyneb y llabedau
Apothesia: achlysurol; hyd at 10mm, disg cochfrown i frown tywyll
Ochr isaf: du, brown tywyll ger yr ymylon, gyda rhisinau du syml niferus, fforchiog weithiau
Nodiadau: cyffredin mewn ystod o gymunedau a chynefinoedd cennau, edrych fel metel wedi'i forthwylio

Grŵp Cennau Storm y Môr Brych *Cetrelia olivetorum*



Ffurf twf a maint: clytiau hyd at tua 20cm neu fwy, llabedau crwn wedi'u hatodi'n llac, sy'n wyn brych a chyda ymyl donnog
Lliw: llwyd golau, lledlas neu ledwyrdd yn aml, arlliw o frown weithiau
Soredia/isidia: gall y llabedau hŷn fod â soredia ar yr ymylon, ddim yn annhebyg i *Parmotrema perlatum* (edrychwch uchod)
Apothesia: anhysbys ym Mhrydain
Ochr isaf: du gyda rhisinau syml, ond gyda pharth brown heb risinau o amgylch yr ymylon
Rhywogaethau tebyg: *Parmotrema perlatum* (edrychwch uchod)
Nodiadau: anghyffredin


Letysen Ffriliog *Platismatia glauca*



Ffurf twf a maint: clytiau hyd at tua 10cm, llabedau gydag ymylon tonnog rhanedig yn rhoi ymddangosiad ffriliog
Lliw: llwyd golau, lledlas neu ledwyrdd yn aml, arlliw o frown neu oren weithiau
Soredia/isidia: isidia syml neu debyg i gwrel neu soredia gronynnog ar yr ymylon
Apothesia: prin iawn
Ochr isaf: brown, gwyn neu ddu, gyda rhisinau achlysurol sy'n syml neu'n ganghennog
Nodiadau: rhywogaeth gyffredin ar goed mewn ystod o gynefinoedd

4. A yw'r cen yn debyg i gwrel?

Un o'r Cennau Cwrel *Sphaerophorus globosus*



Ffurf twf a maint: hyd at tua 10cm, clystyrau o goesynnau silindrog, canghennog afreolaidd yn tyfu oddi wrth y swbstrad
Lliw: llwyd golau, lledlas neu ledwyrdd yn aml, arlliw o frown neu oren weithiau
Soredia/isidia: dim
Apothesia: achlysurol; chwyddiadau cronellog ar flaenau'r canghennau, sy'n ffrwydro i ddatgelu powdwr tywyll y sborau
Ochr isaf: amherthnasol
Rhywogaethau tebyg: *Bunodophoron melanocarpum* (edrychwch dde) sydd â choesyntau fflat yn hytrach na silindrog
Nodiadau: anghyffredin

Un o'r Cennau Cwrel *Bunodophoron melanocarpum*



Ffurf twf a maint: hyd at tua 10cm, clystyrau o goesynnau fflat, canghennog afreolaidd yn tyfu allan oddi wrth y swbstrad, gydag ymddangosiad haenog yn aml. Mae'r gangen yn rhannu yn 'fysedd' a gall edrych fel dwylo i ryw raddau
Lliw: llwyd golau, lledlas yn aml
Soredia/isidia: dim
Apothesia: achlysurol; mae'r gangen yn chwyddo i ffurfio cwcwl sydd â chasgliad o sborau du ar yr ochr isaf
Ochr isaf: amherthnasol
Rhywogaethau tebyg: *Sphaerophorus globosus* (edrychwch i'r chwith) sydd â choesyntau silindrog yn hytrach na fflat
Nodiadau: prin